Cymeradwywyd gan y Bwrdd: Rhag 2021
Dyddiad i'w Adolygu: Rhag 2022
Swyddog Arweiniol: GAM

Datganiad Polisi Gwerth am Arian

Cyflwyniad

Mae Hafan Cymru yma i unrhyw un sy'n chwilio am gymorth i'w helpu nhw i adeiladu dyfodol mwy disglair iddyn nhw eu hunain, i fyw yn well ac i adeiladu'r bywyd diogel, cadarnhaol y mae ganddyn nhw'r hawl iddo.

Rydym yn ymfalchïo yn ein dull creadigol, amlochrog o weithio ac yn anelu at fod y gorau ym mhopeth rydym yn ei wneud. Rydym am barhau i ddarparu tai o ansawdd uchel, a gwasanaethau ymatebol ardderchog i'n cleientiaid a thenantiaid i gyd felly mae'n rhaid inni gael y gorau o'n holl adnoddau.

Sut yr Ydym yn Diffinio Gwerth Am Arian

Yn groes i'r disgwyl, nid yw Gwerth Am Arian yn ymwneud ag arbed arian yn unig, mae'n ymwneud â:

- sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwerth eithaf i'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac ar yr un pryd cadw'r costau mor isel â phosib
- yr effaith ar bobl yn ogystal â'r arian rydym yn ei wario
- darparu gwasanaethau effeithiol ac o ansawdd uchel sy'n cwrdd ag anghenion a disgwyliadau'r bobl sy'n cael mynediad at ein gwasanaethau mewn ffordd mor effeithlon a chost effeithiol â phosib
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau, ac yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon ar yr un pryd â chynnal, a gwella ein gwasanaethau
- sicrhau cydberthyniad rhwng costau tryloyw sy'n cael eu deall gan bawb, ac ansawdd a lefel y gwasanaethau a ddarperir

Ein Dull o Weithredu

Adlewyrchir ein hymrwymiad at Werth am Arian yn ein cynllun busnes 5 mlynedd ac yn ein cynlluniau cyflenwi gwasanaethau. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein strategaethau gweithredu a busnes fel bod Gwerth am Arian yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithio, cynllunio a darparu ein gwasanaethau.

Trwy gydol ein fframwaith Gwerth am Arian rydym yn ymgorffori 'Edafedd Aur' o Ansawdd gan sicrhau ein bod yn arolygu cytundebau, canlyniadau ac allbynnau yn rheolaidd, ac rydym yn meincnodi yn erbyn landlordiaid cymdeithasol tebyg. Fel rhan o hyn ein nod yw ennill achrediadau perthnasol a gydnabyddir er mwyn gallu darparu ymarferion gorau i wella'n barhaus.

Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau Gwerth am Arian gorau drwy ymgymryd â'r canlynol yn barhaus:

- **gwrando ar ein tenantiaid a chleientiaid** – am ansawdd ein gwasanaethau a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- **arolygu ein costau a sut mae ein gwasanaethau yn perfformio** – sut gall ein gwasanaethau darparu Gwerth am Arian os nad ydynt yn effeithiol? Os oes Gwerth am Arian gwael a yw ein gwasanaethau mor effeithiol â phosib?
- **arolygu ein prosesau a chytundebau caffael** – yn enwedig y gweithgareddau a chytundebau hynny a all rhoi budd a gwerth ychwanegol i gymunedau lleol ledled Cymru
- **arolygu perfformiad ein hasedau** – i sicrhau bod ein tai yn cwrdd â safonau Llywodraeth Cymru, a hefyd ein bod ni'n manteisio i'r eithaf ar ein hasedau er mwyn gallu cefnogi ein nodau gwasanaeth a busnes ehangach
- **mesur yr effaith ehangach rydym yn ei gael ar les ein cleientiaid** – byddwn yn mesur y gwerth cymdeithasol ehangach rydym yn helpu ei greu i gymunedau ledled Cymru

Mae ein fframwaith Gwerth am Arian wedi'i seilio ar:

- **Cyllideb** – cael y pris gorau am ddarparu ein gwasanaethau – gan ystyried pris ac ansawdd
- **Effeithlonrwydd** – cael y canlyniadau gorau o'r adnoddau sydd gennym – faint rydych yn ennill mewn perthynas â'r hyn rydych yn cyfrannu
- **Effeithiolrwydd** – cael y canlyniadau cywir i'n cleientiaid a'r busnes – maint yr effeithlonrwydd (meintiol) neu werth yr effeithiolrwydd (ansoddol)
- **Cyfiawnder** – dim ond os ydynt yn deg y mae ein gwasanaethau o werth – gan gydnabod amrywiaeth a sicrhau ein bod yn gwario arian gan ystyried anghenion ein cleientiaid

Gwelwn fod Gwerth am Arian yn allweddol nid yn unig i'n cynaliadwyedd ariannol, ond hefyd i wella ansawdd ein gwasanaethau yn barhaus i'n tenantiaid a chleientiaid i gwrdd â'u hanghenion.